

PWYSIG – DIWEDDARIAD COVID19 – 16 MAWRTH 2020

Byddwch i gyd yn ymwybodol o'r sefyllfa mewn perthynas â'r Coronafeirws [COVID19] a'r ffaith bod pethau yn gallu newid yn gyflym iawn.

Mewn ymateb i hyn, rydym eisoes wedi penderfynu gohirio pob hyfforddiant torfol ac unrhyw ddigwyddiadau rhyngweithiol, am gyfnod amhenodol.

Bydd ymweliadau cefnogol gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ag ysgolion unigol yn parhau fel arfer, **os mai dyna fyddai dymuniad yr ysgol**. Mae opsiwn ar gael hefyd, pe'n ymarferol, i'ch cefnogi o bell boed hynny dros y ffôn neu drwy systemau ar lein megis SKYPE neu TEAMS. Fodd bynnag, oherwydd y gofyn sydd, ac a fydd, ar ysgolion i flaenoriaethu yn wyneb heriau'r feirws, rhagwelwn ostyngiad sylweddol mewn ymweliadau o'r math yma.

Rydym felly yn awyddus i sicrhau bod defnydd llawn, effeithiol a phwrpasol yn cael ei wneud o'n hadnoddau i gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod cyfnewidiol a heriol yma. Yn y tymor byr, byddwn yn cyfarwyddo ein staff i weithredu fel â ganlyn:

1. **Pan fo ysgol yn wynebu sefyllfa staffio argyfyngus, lleoli staff canolog GwE yn y sefydliad i gynorthwyo gyda threfniadau goruchwyllo, neu gefnogi yr UDRh gydag agweddau mwy strategol.**
2. **Paratoi arweiniad i athrawon ar sut i wneud defnydd effeithiol o blatfform dysgu o bell.**
3. **Casglu a rhannu adnoddau sydd ar gael, a deunyddiau dysgu o bell i ysgolion eu defnyddio gyda'u dysgwyr.**
4. **Casglu a rhannu cyfres o adnoddau dysgu o bell i gefnogi datblygiad proffesiynol eich staff.**
5. **Paratoi ystod o ddeunyddiau dysgu o bell, i hwyluso trafodaethau mewnol ar y daith ddiwygio.**

Byddwn yn cyfarfod fory fel Tîm i drafod y pwyntiau uchod - bydd eich Ymgynghorydd Cyswllt yn cysylltu â chi i esbonio ac i drafod y math o gefnogaeth a all fod fwyaf buddiol i chi yn ystod y cyfnod yma.

Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa yn ddyddiol ac yn eich diweddarau drwy ein gwefan <https://www.gwegogledd.cymru/pwysig-covid-19/> a'n cyfrif Trydar.

IMPORTANT - COVID19 UPDATE - 16 MARCH 2020

As you will be aware, given the Coronavirus [COVID19] situation, things can change at a pace. In response, we have already decided to postpone all training and network events, for an indefinite period.

Visits by Supporting Improvement Advisers to individual schools will continue, as per usual, **at the school's discretion**. Alternatively, and if practical, we can provide remote support over the phone, or via on-line systems such as SKYPE or TEAMS.

However, as schools are and will be required to prioritise in light of the challenges imposed by the virus, we anticipate that there will be considerably fewer such visits.

We are therefore eager to maximise effective and purposeful use of our resources to support schools during this volatile and challenging period. In the short term, we will be instructing our staff to take the following approach:

- 1. When a school is facing a critical staffing situation, to deploy central GwE staff at the establishment to assist with supervision arrangements, or to support the SMT with decision making and more strategic aspects.**
- 2. To prepare guidance for teachers on the effective use of a remote learning platform.**
- 3. To collate and share available remote learning resources and materials for schools to use as they see fit with their learners.**
- 4. To collate and share a series of remote learning resources to support the professional development of your staff.**
- 5. To prepare a range of remote learning materials to help facilitate internal discussions on the reform journey.**

We will be meeting as a Team tomorrow to discuss the above points - your Link Adviser will be in contact to explain and to discuss the type of support that you would find most beneficial at this time.

We will continue to review the situation on a daily basis, and to update you via our website: <https://www.gwegogledd.cymru/urgent-covid-19/?lang=en> and Twitter account.